



# Gofal da gan nyrsys a bydwragedd



# Cynnwys



Beth mae ein rheolau ar gyfer nyrsys a bydwagedd yn golygu i chi

1.



Cod nyrsys a bydwagedd

6.



Beth gallwch ei wneud os nad ydych chi'n hapus gyda'ch gofal

7.



Amdanom ni

9.

# Beth mae ein rheolau ar gyfer nyrsys a bydwagedd yn golygu i chi



Mae'n rhaid i nyrsys a bydwagedd roi gofal da i chi.



Gall hyn ddigwydd os ydych chi'n:

- Aros yn yr ysbyty



- Cael baban



- Cael profion mewn clinig.



Mae angen i chi deimlo'n ddiogel. Mae angen i bobl wrando arnoch chi. A byddwch am i'ch anwylyd deimlo'n ddiogel a chael ei glywed os yw'n derbyn gofal.



Bydd hyn yr un peth pan fyddwch yn cael gofal:

- Gan feddygfa



- Yn yr ysbyty



- Mewn cartref gofal



- Yn eich cartref eich hun.





Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth sydd wedi ysgrifennu'r set hon o reolau (neu'r Cod proffesiynol) am ofal. Mae'n rhaid i bob nyrs a bydwraig ei dilyn. Mae'n nodi beth yw gofal da a beth gall pobl ei ddisgwyl.



Mae'n rhaid i nyrsys a bydwragedd fod yn garedig a dangos parch.



Maent yn eich helpu i wneud dewisiadau am eich gofal chi'ch hun.



Mae'n rhaid i nyrsys a bydwragedd wrando arnoch chi. Maent yn gwybod bod eich preifatrwydd yn bwysig.



Maent yn gwneud yn siŵr bod nodiadau yn cael eu cadw'n gyfrinachol.



Caiff gwybodaeth ei rhannu â chi mewn ffordd y gallwch ei deall.



Mae nyrsys a bydwragedd yn rhoi gwybod i chi beth sy'n digwydd.



Byddant yn gwneud yn siŵr eich bod yn ddiogel a ddim yn cael niwed.



Os bydd camgymeriad byddant yn ymddiheuro. Byddant yn rhoi gwybod i chi beth sy'n mynd i ddiogwydd.



Bydd eich nyrs neu'ch bydwraig yn onest. Bydd yn codi'r larwm os bydd yn meddwl nad ydych chi'n ddiogel.



Mae nyrsys a bydwragedd yno i ofalu am eich lles.



Byddant yn eich helpu i gael y gofal sydd ei angen arnoch.

## Cod nyrsys a bydwragedd



Mae'r Cod yn eich rhoi chi wrth wraidd eich gofal. Mae ganddo bedwar prif bwynt y mae'n rhaid i nyrsys a bydwragedd gadw atynt, sef:

- Rhoi pobl yn gyntaf



- Gweithio'n dda



- Cadw pobl yn ddiogel



- Trin cleifion ac aelodau eraill o staff â pharch bob amser.



I gael rhagor o wybodaeth am y Cod, ewch i [www.nmc.org.uk/code](http://www.nmc.org.uk/code)



## Beth gallwch ei wneud os nad ydych chi'n hapus gyda'ch gofal?



Os nad ydych yn fodlon ar y gofal rydych yn ei gael, dywedwch wrth rywun.



Dylech hefyd wneud hynny os nad ydych yn fodlon ar y gofal y mae anwylyd yn ei gael.



Dywedwch wrth rywun yn y man lle mae'r unigolyn yn cael ei ofal.



Gallai hyn fod mewn ysbyty neu gartref gofal.



Dylai wrando ar eich cwyn. Dylai wneud yn siŵr bod rhywun yn cysylltu â chi yn gyflym. Ni ddylai unrhyw un fod yn gas wrthyhch na rhoi gofal gwaeth i chi.



I gael rhagor o wybodaeth am roi gwybod am broblem ewch i **[www.nmc.org.uk/report-nurse-midwife](http://www.nmc.org.uk/report-nurse-midwife)**



neu ffoniwch ni ar 020 7462 5800.

# Amdanom ni



Rydym yn nodi sut y dylai nyrsys a bydwagedd roi gofal ym mhob math o sefydliad.



Rhaid i bob nyrs a bydwraig yn y DU gofrestru â ni a dilyn ein Cod.

**[www.nmc.org.uk](http://www.nmc.org.uk)**



Mae'r lluniau yn cynnwys deunydd o'r Inspired EasyRead Collection ac ni ellir ei ddefnyddio unrhyw le arall heb ganiatâd ysgrifenedig gan Inspired Services.

[www.inspired.pics](http://www.inspired.pics)

